

Pobl & Gwaith | **People & Work**

Talwrn

Adroddiad 2018

#talwrn
grymuso | menter | effeithiolrwydd
empowerment | enterprise | effectiveness

Adroddiad Terfynol Talwrn 2018

Rhwydwaith digyfansoddiad o gyrff a mudiadau gwirfoddol o bob rhan o Gymru yw Talwrn. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cael cymorth gan Sefydliad Garfield Weston i ddatblygu effaith y rhwydwaith ar y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein bwriad oedd defnyddio cymorth Sefydliad Garfield Weston i ganolbwyntio ar dri maes gwaith:

- datblygu seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru
- helpu sefydliadau gwirfoddol i fod yn 'haws eu hariannu'
- cael mwy o arian i Gymru (hynny yw, rhagor o gyrff a mudiadau gwirfoddol Cymru yn sicrhau arian gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol)

Mae'r adroddiad hwn yn grynodedb o'r gwaith a wnaed gan Talwrn rhwng mis Mai 2017 a mis Ebrill 2018 a'i effaith ac mae'n adeiladu ar yr adroddiad interim a wnaed ym mis Hydref 2017.

Hanes

Rhoddodd Sefydliad Rank gymorth a swm bach o arian i 'ysgogi' Talwrn, a oedd yn ddigon i dalu am gostau cyfarfodydd a theithio ac ychydig o amser datblygu yn 2015. Rhoddodd Sefydliad Garfield Weston grant datblygu yn 2016 a alluogodd y grŵp i ymgymryd â rhai darnau o waith a hefyd i weithio gyda'r sector ehangach. Yn 2017 rhoddodd Sefydliad Garfield Weston grant ychwanegol i gefnogi rôl Sarah Lloyd-Jones yn Talwrn, gan ei galluogi i neilltuo amser i ganolbwyntio ar y tri maes craidd dros y flwyddyn. Mae hefyd wedi galluogi aelodau Talwrn i gefnogi eu rhwydweithiau eu hunain, gan ariannu gwaith mentora, cymorth cymheiriaid, digwyddiadau a gweithgareddau.

Aelodaeth a chyrhaeddiad Talwrn

Mae aelodau Talwrn yn cwrdd bob tri mis ac mae ganddynt ddyddiadau eisoes wedi'u trefnu ar gyfer gweddill y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae 26 o aelodau a daeth 15 i'r cyfarfod diwethaf. Mae'r aelodaeth yn agored i unrhyw arweinydd sector gwirfoddol yng Nghymru sydd â diddordeb. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys aelodau'n adrodd am eu gwaith (sy'n ysgogi cysylltiadau, cydweithio, datrys problemau a

chymorth) a thrafodaethau am faterion sy'n codi. Ar adegau ceir cyflwyniadau, fel y rhai diweddar gan Uned Ddata Cymru a Sefydliad Codi Arian Cymru.

Mae'r holl aelodau'n gysylltiedig â'u rhwydweithiau eu hunain ac yn defnyddio'r rhain i ddatblygu gwaith Talwrn ymhellach. Mae rhai o'r rhain ar themâu (er enghraifft, sefydliadau amgylcheddol neu grwpiau cymorth iechyd meddwl); yn lleol (pobl yn gweithio mewn cymuned neu sir benodol); mewn partneriaeth (megis pum sefydliad gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd, dan arweiniad Gofalwyr Credu ym Mhowys); a/neu'n rhan o raglen (megis y 13 o gymunedau a gefnogir gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau neu'r chwe chymuned sy'n derbyn arian Creu Eich Lle gan y Loteri). Mae'r rhwydweithiau ehangach hyn, ynghyd â chyfraniadau at ddigwyddiadau a pholisi, wedi galluogi cyrhaeddiad Talwrn i ledaenu y tu hwnt i'w aelodau. Rydym wedi defnyddio'r rhwydweithiau hyn ac wedi gweithio gyda'r sector cyhoeddus i ledaenu trafodaeth a syniadau.

Mae'r rhwydwaith o berthnasoedd newydd a ddatblygwyd drwy gyfranogi yn Talwrn wedi creu cyfleoedd newydd eraill. (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái)

Datblygu seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru

Mae gan Gymru nifer mawr o gyrff cymorth yn y sector gwirfoddol. Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) friff cenedlaethol i gynrychioli'r sector. Ceir 19 o gynghorau gwirfoddol cymunedol (CGC) ynghyd â Sefydliad Datblygu Cymunedol Cymru. Yn ogystal, ceir gyrff cymorth menter gymdeithasol megis Canolfan Cydweithredol Cymru, y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu ac UnLtd.

Yn ôl dadansoddiad aelodau Talwrn, mae blwch o ran cymorth a datblygu er gwaethaf y rhwydwaith hwn, yn benodol o ran sefydliadau canolig eu maint, hynny yw'r rheiny sy'n cyflogi mwy nag un neu ddau aelod o staff. Mae cynghorau gwirfoddol cymunedol lleol yn darparu hyfforddiant ym maes llywodraethu sylfaenol, rheoli ariannol a diogelu; cymorth gyda rhai anghenion codi arian; a chymorth gyda chyfansoddiadau a sefydlu gyrff. Ond prin yr ystyrir eu bod yn gallu cefnogi anghenion mwy cymhleth, ac weithiau maent hyd yn oed yn cystadlu â'i gilydd am gyllid. Mae gan elusennau mwy o faint naill ai eu hisadeiledd cymorth eu hunain neu

maent yn gysylltiedig â 'brand' y DU sy'n rhoi arweiniad, her a chymorth. Mae'n debyg mai mewn grwpiau canolig eu maint y ceir y bwlch, y mae angen cymorth mwy cynnil a soffistigedig arnynt nag y gall y cyngorau gwirfoddol cymunedol ei ddarparu, ond nad oes ganddynt yr adnoddau (amser neu arian) i ddatblygu atebion 'mewnol'.

Yn ogystal â hyn mae'r broblem bod blynyddoedd o ariannu mân-reoli gan y sector cyhoeddus a rhai cyllidwyr cyhoeddus (er enghraifft, y Loteri, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) wedi amddifadu'r sector o rai sgiliau craidd. Ni all ymddiriedolwyr bennu cyllidebau os yw pob ceiniog yn cael ei ddyrannu gan yr ariannwr; ni allant asesu sut i fesur effaith os oes pobl allanol wedi dweud wrthynt beth i'w gyfrif. Gyda newidiadau yn y ffordd mae gwaith yn cael ei gyllido, mae'n rhaid i'r sector yng Nghymru aildysgu sgiliau ac mae Talwrn wedi bod yn ceisio annog y seilwaith cymorth i ateb yr her mae hyn yn ei chreu.

Mae Talwrn wedi nodi bod gan gyrff a mudiadau gwirfoddol anghenion cymorth sy'n ymwneud â:

- **rheoli newid:** er enghraifft pan fo darn pwysig o waith yn dod i ben (megis y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru), beth sy'n digwydd i'r sefydliad ac i'r bobl mae'n gweithio gyda nhw? Sut mae sefydliadau'n rheoli twf neu leihad? Sut maent yn blaenoriaethu'r hyn sy'n gorfod newid a'r hyn y dylid ei amddiffyn? Beth sy'n digwydd pan fo person allweddol yn gadael, neu pan fo'r rôl yn ehangu'n ormodol i'r person hwnnw?
- **cyd-destun sy'n newid:** pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn lleihau, mae sefydliadau gwirfoddol yn sylwi bod angen iddynt gefnogi pobl ag anghenion mwy cymhleth a gall hyn herio'r hyn maent yn ei wneud a sut maent yn ei wneud; mae grantiau'n troi'n brosesau comisiynu, mae ceisiadau'n troi'n dendrau ac mae angen sgiliau gwahanol er mwyn cystadlu.
- **rheoli ariannol a rheoli risg:** er mwyn rheoli economi gymysg o grantiau, contractau, enillion a rhoddion, mae angen sgiliau newydd, ymwybyddiaeth a rheolaethau newydd ar staff ac ymddiriedolwyr.
- **amser meddwl:** yn aml, mae gan arweinydd sawl rôl. Gall fod yn godwr arian, yn gynlluniwr, yn rheolwr, yn weithiwr partneriaeth, yn fentor staff, yn ysgrifennydd i'r bwrdd neu'r pwyllgor ac yn weithiwr cymorth, ac mae'n teimlo

fel peth moethus i neilltuo amser i gamu yn ôl o waith brys i feddwl am y dyfodol, asesu'n feirniadol yr hyn mae'r sefydliad yn ei wneud a sut mae'n ei wneud, a herio rhagdybiaethau diwylliannol neu sydd wedi'u dysgu am y gwaith. Mae hefyd yn gallu teimlo fel tasg anobeithiol pan fo arian yn dod i ben a'r sefydliad wedi cael ei arwain oddi wrth ei ddiben craidd. Ond heb neilltuo amser i feddwl, yr unig newid sy'n digwydd yw newid sy'n cael ei orfodi gan sefydliadau allanol.

- **marchnata:** un o'r prif rwystrau i godi arian a datblygu rôl y sector yw pa mor wael y mae llawer o gyff a mudiadau gwirfoddol Cymru wrth ysgrifennu am eu gwaith. Gwelsom fod aelodau Talwrn yn gallu ysbrydoli eraill wrth drafod am yr hyn roeddent yn ei wneud, ond wrth adolygu ceisiadau ysgrifenedig gan gymheiriaid, yn aml roedd y cyffro, yr angerdd a'r dadansoddiad hynny ar goll.
- **mesur effaith:** nodi'r gwahaniaeth mae eu gwaith yn ei wneud i fywydau pobl yw un o'r prif heriau sy'n wynebu sefydliadau a, heb y wybodaeth honno, mae'n amhosib asesu'ch cryfderau a'ch gwendidau'n feirniadol.

Mae Talwrn wedi gweithio gyda sefydliadau seilwaith i godi ymwybyddiaeth o'r anghenion hyn a rhai eraill. Mae Talwrn hefyd wedi gweithio i godi proffil y sector gwirfoddol yng Nghymru a'i botensial drwy roi cyflwyniadau mewn digwyddiadau megis:

- seminar Ymddiriedolaeth Carnegie am 'Turnaround Towns', gyda CGGC: dadlau dros bwysigrwydd y gymuned a'r sector gwirfoddol wrth ddatblygu llesiant
- Seminar ôl-wirionedd – y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol a'r Gynghrair Gwybodaeth Ddefnyddiol: dadlau'r angen dros hyrwyddo meddwl yn feirniadol mewn cyrff a mudiadau gwirfoddol
- Fforwm Polisi Cymru – Blaenoriaethau Tlodi i Gymru: dadlau dros fuddsoddiad gwell yn y sectorau cymunedol a gwirfoddol fel dull o drechu tlodi
- Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau: 'Economi newydd i Gymru' – ystyried rôl cymunedau a sut y gellir eu cefnogi i fod yn sylfaen ar gyfer datblygu economaidd

- Cyfarfod Cymorth Trydydd Sector Cymru (CGGC a 19 o gynghorau gwirfoddol cymunedol) – trafod yr angen i ysgogi meddwl yn y sector gwirfoddol
- Sgwrs TEDx ar bwysigrwydd cefnogi seilwaith cymunedol. Ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae Sarah hefyd wedi cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru i drafod y cysyniad o gymunedau cryf a sut gellid cefnogi datblygu cymunedol yn well; Sefydliad Cymunedol Cymru i drafod yr angen i gefnogi datblygu yn y sector gwirfoddol; ac UnLtd a TimeCentres UK i edrych ar rôl menter gymdeithasol.

Bu Sarah ac aelodau eraill Talwrn yn gweithio gyda CGGC ar bapur ar y cyd ar Gymunedau Cryf a gyflwynwyd i'r Gweinidog Cymunedau ar y pryd yn Llywodraeth Cymru.

Mae syniadau Talwrn wedi cael eu rhannu ag arianwyr (megis Sefydliad Rank a'r Loteri yng Nghymru) ac â chyrff sector cyhoeddus megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a swyddog datblygu Ymddiriedolaeth Cranfield Cymru.

Adeiladu Gallu – helpu'r sector gwirfoddol i fod yn 'haws ei ariannu'

Mae ein gwaith eleni wedi canolbwyntio ar herio a datblygu syniadaeth sefydliadau'r sector gwirfoddol am yr hyn y gallent ac y dylent fod yn ei wneud. Yna caiff hyn ei gysylltu â sut maent yn meddwl am ariannu a'r ffyrdd y dylent ei ddefnyddio ac ar sut maent yn cyflwyno eu gwaith.

Ein dull bob tro yw cymorth cymheiriaid – mae holl aelodau Talwrn eu hunain yn rhedeg cyrff a mudiadau gwirfoddol, yn ceisio cyllid am eu gwaith, yn meddwl am sut i gefnogi pobl yn well ac yn wynebu'r ansicrwydd a'r rhwystredigaeth sydd ynghlwm wrth sefyllfa sy'n newid yn gyflym i'r bobl maent yn gweithio gyda nhw.

Cynadleddau, seminarau a digwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Talwrn wedi cyfrannu adnoddau at weithgareddau a digwyddiadau i aelodau. Mae hyn wedi cynnwys sesiwn i gefnogi

gwaith ar y cyd rhwng sefydliadau gofal ym Mhowys, cynhadledd genedlaethol a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau gyda CLES, sef 'Adeiladu Economi Leol Newydd yng Nghymru' (<http://www.yac.cymru/bnew2017-2/1?force=2>); a digwyddiad a gynhaliwyd gan Gwmni Bro Ffestiniog ym Mlaenau Ffestiniog a ganolbwyntiodd ar sut mae'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat yn cydweithio i adfywio'r dref. Yn ogystal, mae Talwrn wedi cynnal tri digwyddiad ei hun, yng Nghaernarfon, Cwm Rhondda ac Abertawe, gan ganolbwyntio ar sut i fynd at ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol. Aeth swyddogion codi arian Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol i ddau o'r digwyddiadau hyn ac mae Martin Price, Cadeirydd Sefydliad Codi Arian Cymru, wedi ymuno â Talwrn.

Gweithio ar y cyd

Mae aelodau Talwrn wedi ysgrifennu papurau, erthyglau a blogiau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad y sector ac mae Talwrn yn rhoi cyd-destun a sbardun i aelodau ddod ynghyd i ganolbwyntio ar fater penodol. Fel yr ysgrifennodd Simon James, Prif Weithredwr Interlink (Cyngor Gwirfoddol Cymunedol ar gyfer Rhondda Cynon Taf):

Mae ein gwaith yn parhau gyda'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ar hybiau cymunedol a sefydliadau angori. Dylanwadodd hwn ar adroddiad diweddar y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar bolisi awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, ac ysgogodd Tasglu Cymoedd Llywodraeth Cymru i nodi hybiau cymunedol fel blaenoriaeth, sydd bellach yn cael ei rhoi ar waith. Yn bwysicach na hyn, mae wedi gwella ein syniadaeth ein hunain ac rydym bellach yn datblygu ffyrdd o gefnogi a datblygu hybiau lleol yn Rhondda Cynon Taf yn y gymuned ac yn y sector gwirfoddol.

Mae Talwrn yn creu cysylltiadau ar draws y sector sy'n atgyfnerthu gwaith pob un. Nodwyd yn gynnar gennym mai un o'r cryfderau allweddol yw bod aelodau Talwrn yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol iawn, gan fynd i'r afael â materion gwahanol ac mewn meysydd gwahanol a bod hyn yn cynyddu'r cyfle i gydweithredu, cefnogi ei gilydd a herio'n anfeiriadol. Mae'r elfennau hyn, yn eu tro, wedi atgyfnerthu eu gwaith.

Mae Talwrn yn unigryw o ran y cyfle i feddwl mae'n ei roi i arweinwyr yn y sector gwirfoddol i ystyried rhai o'r materion pwysicach yng Nghymru a sut gall y sector

gwirfoddol ymateb a chynyddu ei ddylanwad. O ran cyfiawnder cymdeithasol a rôl cymdeithas sifil, mae'n werthfawr dros ben. (Jen O'Hara-Jakeway, Prif Weithredwr, Gofalwyr Credu)

Rydym wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth 'foesol' yn fawr. Mae'n fuddiol iawn bod yng nghwmni pobl sy'n rhannu gweledigaeth/angerdd debyg ac sy'n trafod trafferthion a heriau tebyg mewn ffordd agored. Mae hyn wedi bod yn galonogol iawn yn ystod y cyfnod anodd hwn. (Gweithredu yng Nghaer a Threlái)

Cymorth a Mentora gan Gymheiriaid

Mae Talwrn wedi darparu cymorth mentora cymheiriaid. Er enghraifft:

- Mae Val Williams o Sylfaen yng Ngwynedd wedi gweithio gyda Meithrinfa Morlo (menter gofal plant cymunedol yn Ynys Môn) i'w helpu i gynyddu eu sgiliau codi arian, datblygu strategaeth gyllido a chymorth wrth baratoi ceisiadau penodol;
- Mae prif swyddog gweithredol elusen ailgylchu celfi a nwyddau gwyn wedi cael ei ariannu i fentora aelod o Talwrn sy'n sefydlu siopau elusennol i geisio ennill peth incwm a chreu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, cymdeithasu a chyflogaeth mewn ardal wledig;
- Mae Alison Hill o Bartneriaeth Parc Caia yn Wrecsam wedi cefnogi prif weithredwr KIM Inspire, elusen cymorth iechyd meddwl yn Sir y Fflint, i ganolbwyntio ar ddyfodol a datblygiad yr elusen.

Mae KIM wedi profi newid sylweddol yn ddiweddar ac mae dal mewn cyfnod pontio mewn sawl ystyr. Fel prif weithredwr, rwyf wedi cael budd mawr o'r mentora rwyf wedi'i dderbyn drwy Talwrn, boed hynny'n un i un gyda mentor dynodedig neu gan aelodau eraill o Talwrn drwy'r broses newid. (Annie Donovan)

Gwnaed gwaith cefnogaeth gan gymheiriaid gyda'r canlynol hefyd:

- Gofalwyr Credu, gan ystyried sut mae elusen cefnogi gofalwyr hirsefydlog yn newid i ganolbwyntio'n llai ar wasanaeth ac yn fwy ar rymuso;

- Adfywio Glyncoch - sefydliad sydd ym mherchnogaeth y gymuned ger Pontypridd. Mae ymweliadau bob pythefnos yn parhau i ddarparu cymorth 'cyfaill beirniadol' yn dilyn y newid o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i gynllun y Clybiau Swyddi Cymunedau am Waith a Mwy;
- Theatr Spectacle, sy'n cynnig gweithdai a phrosiectau theatr gymunedol yn ne-ddwyrain Cymru a'r tu hwnt, i gefnogi cynllunio wrth iddi dderbyn contractau a gwaith ynglŷn â chamfanteisio'n rhywiol ar blant;
- Capel Blaencwm – capel ym mhen uchaf Rhondda Fach sy'n datblygu ei rôl yn y gymuned, gan gynnwys cynlluniau i greu caffi a chegin hyfforddi a stiwdio gelfyddydau;
- Croeso i'n Coedwig, Treherbert, Rhondda – menter leol i greu incwm o goetiroedd er mwyn cefnogi'r gymuned (a ariennir bellach am saith mlynedd gan y Loteri Fawr);
- Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bŵl – cymuned weithgar iawn sy'n datblygu ei hamgylchedd lleol (a ariennir am saith mlynedd gan y Loteri Fawr)
- STAR (Adfywio'r Sblot, Tremorfa ac Adamsdown) yng Nghaerdydd – wedi helpu gyda'r broses bontio gan y terfynwyd y rhan fwyaf o'r swyddi ar ddiwedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- TABS yn y Porth: darparu cymorth cyfaill beirniadol i sefydliad hirsefydlog (dros 20 mlynedd) sy'n profi anawsterau ariannol sylweddol ond sy'n cyflawni rôl werthfawr, gan gynnwys Sied Ddynion i Gwm Rhondda;
- ariannu a chymorth cyfaill beirniadol i'r cynllun Cymdogion Da Gogledd Caerdydd.

Yn ogystal, mae Talwrn:

- wedi cefnogi gwaith grŵp Seren Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, sef menter sy'n annog ac yn cefnogi pobl ifanc â gallu academaidd o gefndiroedd difreintiedig i fynd i'r prifysgolion gorau. Mae hyn wedi cynnwys cydgysylltu â Chymdeithas Rhydychen a chynorthwyo pobl ifanc i fynd i ddiwyddiadau Seren;
- wedi cydweithredu â nifer o bartneriaid allweddol i gynllunio a threfnu Rhondda Gryfach – menter i ddod â grwpiau sector gwirfoddol sy'n gweithio yng Nghymoedd Rhondda ynghyd. Mae Rhondda Gryfach yn cynnal

digwyddiadau ac yn hyrwyddo rhwydweithio yn y trydydd sector a chydag eraill yn Rhondda. Yn y digwyddiad diwethaf, daeth dros 40 o grwpiau a sefydliadau ynghyd i rannu eu gwaith a thrafod cydweithredu;

- wedi cynorthwyo Citizens Cymru i hyrwyddo'r Cyflog Byw ac ymgyrchoedd cyfiawnder cymdeithasol eraill;
- yn cynnal set dysgu gweithredol i weithwyr yn y trydydd sector yng Nghaerdydd; ac
- yn mynychu digwyddiadau Ysgol Fusnes Caerdydd yn rheolaidd, gan gydgyssylltu â chydweithwyr o'r sector preifat a'r brifysgol i ddatblygu ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.

Mae Talwrn wedi dosbarthu tri chylchlythyr dwyieithog sy'n rhoi gwybodaeth a chysylltiadau allanol ynglŷn â materion sy'n berthnasol i gyrff a mudiadau gwirfoddol a gwybodaeth am ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol.

Cael mwy o arian i Gymru

Mae Talwrn wedi gweithio gyda chyllidwyr, codwyr arian a chyrrff a mudiadau gwirfoddol i gael mwy o arian gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol i Gymru. Mae hyn wedi cynnwys gwaith i wella cynigion a deall y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio grantiau o'r fath.

Datblygwyd papur byr a syml a oedd yn amlinellu'r prif syniadau am ddulliau o ran mynd at ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol gyda chyfraniad gan saith ariannwr. Cafodd hwn ei ddosbarthu a'i drafod yn eang a'i ddefnyddio i strwythuro gweithdai gyda chyrrff a mudiadau gwirfoddol yn Abertawe, Glynrhedynog a Chaernarfon. Yn ogystal, bu Sarah Lloyd-Jones yn gweithio gyda sefydliadau unigol i ddatblygu'r syniadaeth am anghenion cyllido a/neu sut i ddefnyddio adolygiadau gan gymheiriaid.

Mae'r dull hwn wedi helpu sefydliadau (o fewn Talwrn ac yn ehangach) i sicrhau cyllid gan amrywiaeth o ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mae Talwrn wedi ein helpu i feithrin perthnasoedd â chyllidwyr a oedd yn ymddangos ymhell y 'tu hwnt i'n cyrraedd' yn y gorffennol. Mae'r broses hon wedi ein helpu i ddysgu'r sgiliau i allu mynd at arianwyr a meithrin perthnasoedd. Er nad

arweiniodd y cyswllt ag Esmee Fairbairn (a'r adolygiad gan gymheiriaid o'n cais) at lwyddiant, dylanwadodd y sgiliau a'r wybodaeth a gafwyd drwy'r broses ar y canlyniad mewn meysydd eraill. Er enghraifft, gwnaethom gyswllt dirybudd â sefydliad yn ddiweddar, cynhalion ni ymweliad ganddo ac rydym newydd gael ein gwahodd gan y bwrdd i wneud cais am un o'i grantiau.

Mae adolygu ceisiadau am gyllid gan gymheiriaid wedi bod yn un o'r cyfleoedd cyntaf rydym wedi'u cael i gael adborth manwl allanol gan bobl sy'n fodlon siarad yn ddi-flewyn-ar-dafod a dweud yr hyn mae angen ei ddweud! Rydym wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn. (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái)

Astudiaeth achos Sylfaen

Ers bod yn rhan o Talwrn, rydym wedi sicrhau'r cyllid canlynol:

Prosiect datblygu sgiliau llythrennedd i weithwyr - Garfield Weston £10,000, ICF - £6,600, Cronfa Widening Access - £3000 (cyllid untro)

Datblygu Sylfaen a hyrwyddo'r CLG yng ngogledd-orllewin Cymru - Sefydliad Paul Hamlyn - £60,000 dros 2 flynedd

Prosiect Rhwyd Arall - ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sydd mewn perygl o ddatgofrestru neu sydd wedi datgofrestru'n ddiweddar o'r ysgol uwchradd - Plant mewn Angen - £85,000 dros 3 blynedd, Cronfa'r Loteri - £232,000 dros 5 mlynedd

Mae cael cymorth drwy Hibah (Pobl a Gwaith) gyda'r ymchwil, bod yn gallu trafod syniadau â Sarah ac aelodau eraill Talwrn a chael cyngor drwy wrando ar aelodau'r grŵp wedi bod yn hynod werthfawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sydd wedi bod yn ddwy flynedd anodd i ni.

Astudiaeth achos Gofalwyr Credu

Mae Talwrn wedi ein helpu'n aruthrol i ddatblygu ein strategaeth gyllido a'r llwyddiannau canlynol:

Yn ddiweddar (dros ryw flwyddyn):

Sefydliad Rank - £75k

Ymddiriedolaeth Tudor £35k

Y Gronfa Loteri Fawr £718k

Sefydliad Lloyds £75k

Plant mewn Angen £120k

A 3 blynedd yn ôl:

Ymddiriedolaeth Triangle £90k

Sefydliad Henry Smith £120k

Sefydliad Waterloo £45k

Hefyd cawson ni lawer o help gan Talwrn gyda'n cais i Esmée Fairbairn. Nid ydym yn gwybod y canlyniad ond rydym wedi cael adborth cadarnhaol bod y cais wedi'i ysgrifennu'n dda iawn.

Casgliadau

Mae Talwrn wedi dangos gwerth ystyried **codi arian** fel mater sector a sefydliadol, yn hytrach na mater o ysgrifennu ceisiadau yn unig. Yn ôl ein gwaith dadansoddi cynnar, nid oedd llawer o sefydliadau yng Nghymru'n ysgrifennu ceisiadau da oherwydd, yn rhy aml, nad oedd ganddynt y cyd-destun a'r cymorth i arloesi a datblygu. Ein hymagwedd ni yw ysgogi meddwl ac annog syniadau ar gyfer newid a datblygu a gadael i ddatblygiad gwaith newydd lifo o hynny:

Mae bod yn rhan o Talwrn wedi ehangu rhwydweithiau KIM ac wedi ein helpu i ddatblygu fel sefydliad o elusen a oedd yn cynnig gwasanaeth iechyd meddwl i fenywod i ganolbwyntio'n llawer mwy ar y gymuned ehangach. Yn ddiweddar rhoddwyd £250,000 i ni gan y Gronfa Loteri Fawr i ddarparu cymorth iechyd meddwl i ddynion ac roedd disgrifio ein rhan gyda Talwrn yn y cais yn elfen gadarnhaol iawn. (Prif Weithredwr KIM Inspire)

Mae Talwrn wedi canolbwyntio'n fawr yn ei drafodaethau ar **ethos, gwerthoedd a moeseg** y sector gwirfoddol. Ar adeg pan fo pwysau cynyddol i elusennau ymddwyn fwyfwy fel busnesau, cystadlu â'r sector preifat am gcontractau a chael gwared ar waith craidd er mwyn canolbwyntio ar ddulliau wedi'u targedu, rydym wedi ystyried yr angen i ailddarganfod yr hyn sy'n diffinio ein gwaith. Mae hyn wedi helpu rhai sefydliadau i adolygu eu gwaith, ac eraill i ddisgrifio'r hyn maent yn ei wneud a pham mewn ffordd llawer mwy clir a phenodol.

Mae Talwrn yn llwyddiannus oherwydd ei fod yn dod â phobl ynghyd o wahanol rannau o Gymru, gwahanol fathau o waith a gwahanol fathau o sefydliadau. Mae pawb yn gallu **dysgu a rhannu** ac mae mathau newydd o bartneriaethau a chydweithredu'n gallu datblygu. Mae hyn yn brofiad unigryw i bob un ohonom. Nid oes fforwm arall yng Nghymru lle gall pobl ddod ynghyd, rhannu dysgu a chefnogi ei gilydd nad yw'n benodol i sir, thema neu raglen. Mae rhai arweinwyr sy'n mynychu cyfarfodydd Talwrn wedi bod yn gweithio yn eu rolau ers ugain mlynedd neu fwy. Maen nhw'n awyddus i rannu eu gwybodaeth, cael eu herio o ran eu rhagdybiaethau a gloywi eu syniadau ac mae **gwaith rhwng cymheiriaid** yn ffordd effeithiol iawn o wneud hyn.

Mewn rhai ffyrdd, mae Talwrn wedi bod yn fwy **dylanwadol** na'r disgwyl o ystyried ei faint a'i gwmpas. Rydym wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru, wedi gweithio'n agos gyda CGGC ac wedi llywio syniadaeth cyrff fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Materion Cymreig ac Uned Ddata Cymru. Rydym wedi ysgrifennu papurau am weithio gyda'r sector cyhoeddus; comisiynu a'i effaith; arweinyddiaeth a sut gellir ei chefnogi a gofal cymdeithasol a chymunedau. Nid yw Talwrn erioed wedi honni ei fod yn gorff cynrychioliadol, ond yn hytrach mae'n llais sector gwirfoddol gwybodus ac annibynnol ac mae'n effeithiol oherwydd nad oes llais tebyg ar gael yng Nghymru. Heb unrhyw gyllid gan y sector cyhoeddus a dim gofyniad i gynnal strwythurau a staff, mae Talwrn wedi gallu canolbwyntio ei ymdrechion yn llwyr ar rôl y sector gwirfoddol yng Nghymru a sut i ddatblygu ei gryfder. Nid yw hyn bob amser wedi cael ei ystyried yn gadarnhaol gan gynghorau gwirfoddol cymunedol, ond rydym yn gweld ein hunain yn cyflawni rôl wahanol sy'n cyd-fynd â'u gwaith nhw ac yn atgyfnerthu'r sector gwirfoddol – sy'n gorfod bod yn nod a rennir. Yn y pen draw, mae gwaith Talwrn yn ymwneud â datblygu a newid yn hytrach na chynnal y sefyllfa bresennol.

Y dyfodol

Mae aelodau Talwrn am barhau i gwrdd a dylanwadu ar y sector gwirfoddol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gynnig adolygiadau gan gymheiriaid lle bydd y rheiny'n ddefnyddiol a byddwn yn hyrwyddo'r papurau sydd wedi cael eu datblygu gan yr aelodau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.